# Adolygiad Timms o'r Taliad Annibyniaeth Personol: Cais am Dystiolaeth

## Cyflwyniad

Diben y Cais hwn am Dystiolaeth yw casglu adborth a meithrin dealltwriaeth i lywio Adolygiad Timms o'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP). Mae'r Cais hwn am Dystiolaeth yn cael ei weinyddu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar ran grŵp llywio Adolygiad Timms. Mae'r grŵp llywio yn awyddus i glywed gan sefydliadau ac unigolion sydd â gwybodaeth sy'n berthnasol i'r Adolygiad.

## Gwybodaeth Allweddol

Mae'r llywodraeth wedi lansio Adolygiad Timms i sicrhau bod y Taliad Annibyniaeth Personol yn deg ac yn addas ar gyfer y dyfodol mewn byd sy'n newid, ac yn helpu i gefnogi pobl anabl i gyflawni iechyd gwell, safonau byw uwch, a mwy o annibyniaeth, gan gynnwys drwy gyflogaeth.

Diben y Taliad Annibyniaeth Personol yw cyfrannu at y costau ychwanegol y mae pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor yn eu hwynebu. Rydym yn cynnal yr Adolygiad er mwyn sicrhau bod y Taliad Annibyniaeth Personol yn adlewyrchu'n effeithiol effaith cyflyrau iechyd hirdymor ac anabledd yn y byd modern. Mae'r Adolygiad yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda phobl anabl, y sefydliadau sy'n eu cynrychioli, gofalwyr, clinigwyr, arbenigwyr, Aelodau Seneddol a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r Adolygiad yn cael ei gyd-gadeirio gan Syr Stephen Timms, y Gweinidog dros Nawdd Cymdeithasol ac Anabledd; Sharon Brennan a Dr Clenton Farquharson CBE. Mae'r cyd-gadeiryddion yn gweithio gyda grŵp llywio o 12 o aelodau sy'n cyd-arwain y broses o gydgynhyrchu'r Adolygiad. Mae'r grŵp llywio yn dwyn ynghyd ystod o brofiad bywyd, arbenigedd a phriodoleddau amrywiol.

Mae aelodau'r grŵp llywio wedi llunio'r pedair thema sy'n ffocws i'r Cais hwn am Dystiolaeth, sy'n cael ei gynnal ar eu rhan gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r grŵp llywio wedi ymrwymo'n gryf i sicrhau bod yr holl weithgarwch ymgysylltu a wneir fel rhan o'r broses o gydgynhyrchu Adolygiad Timms, gan gynnwys y Cais hwn

am Dystiolaeth, mor hygyrch â phosibl. Bydd y wybodaeth a geir o'r Cais hwn am Dystiolaeth yn darparu tystiolaeth a dealltwriaeth hanfodol i gefnogi'r grŵp llywio i ddatblygu ei argymhellion.

Gallwch ddarllen rhagor am y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad, y modd y bydd yn gweithredu'n ymarferol, a gwybodaeth am y Cyd-gadeiryddion ac aelodau'r grŵp llywio yn y dogfennau a ddarperir ar dudalen Adolygiad Timms ar GOV.UK.

Mae rhagor o wybodaeth am y Taliad Annibyniaeth Personol, a sut i hawlio, ar gael ar-lein yn GOV.UK (www.gov.uk/taliad-annibyniaeth-personol-pip) a (Canllaw asesu'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) ar gyfer Darparwyr Asesiadau).

### Disgrifiad o'r Cais am Dystiolaeth

Mae'r Cais hwn am Dystiolaeth wedi'i anelu at sefydliadau ac unigolion sydd â gwybodaeth sy'n berthnasol i'r Adolygiad. Mae'r Cais hwn am Dystiolaeth yn cael ei weinyddu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar ran grŵp llywio Adolygiad Timms. Mae Adolygiad Timms wedi ymrwymo i ymgysylltu â phobl anabl, y sefydliadau sy'n eu cynrychioli, gofalwyr, clinigwyr, arbenigwyr, Aelodau Seneddol a rhanddeiliaid eraill, fel bod ystod eang o safbwyntiau a lleisiau yn cael eu clywed. Y diben yw casglu tystiolaeth gan bob parti sydd â buddiant er mwyn cyfrannu at lywio'r Adolygiad.

Mae'r Adolygiad yn croesawu tystiolaeth a sylwadau gan unigolion a sefydliadau sydd â phrofiad bywyd neu brofiad drwy ddysgu, yn ogystal â gwybodaeth ac arbenigedd. Gall y dystiolaeth fod ar sawl ffurf a gallai gynnwys cyflwyniadau ysgrifenedig, data sy'n bodoli eisoes, neu ddadansoddiadau ac adroddiadau heb eu cyhoeddi.

Bydd y Cais hwn am Dystiolaeth yn rhan o raglen ehangach o ymgysylltu â rhanddeiliaid a fydd yn cael ei phennu gan y grŵp llywio. Mae'r Cais hwn am Dystiolaeth ar agor o 19 Mawrth 2026 a bydd yn cau am 11.59 pm ar 28 Mai 2026. Caiff yr holl dystiolaeth a gyflwynir ei darparu i'r grŵp llywio. Yn ogystal, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn llunio ymateb cryno i gefnogi'r grŵp llywio wrth gydgrynhoi'r dystiolaeth a gafwyd.

## Cais am Dystiolaeth

Hoffai'r Adolygiad gasglu adborth a gwybodaeth yn ymwneud â'r meysydd a amlinellir yn y Cylch Gorchwyl. O'r Cylch Gorchwyl, mae'r grŵp llywio wedi llunio gwaith yr Adolygiad o amgylch pedair thema allweddol: rôl a diben y Taliad Annibyniaeth Personol; cymhwysedd, tegwch a chyfiawnder wrth ddyfarnu'r Taliad Annibyniaeth Personol; y profiad o hawlio'r Taliad Annibyniaeth Personol; a'r cyd-

destun newidiol a'r effaith ar y Taliad Annibyniaeth Personol, a hynny wedi'i ategu gan rai meysydd penodol yr hoffai'r grŵp ganolbwyntio arnynt.

**Themâu allweddol**

**Thema 1 – Rôl a diben y Taliad Annibyniaeth Personol.**

Bydd yr Adolygiad yn archwilio a yw'r Taliad Annibyniaeth Personol yn cyflawni ei ddiben arfaethedig. Drwy’r thema hon, mae gan yr Adolygiad ddiddordeb mewn deall yr hyn y dylai'r Taliad Annibyniaeth Personol fod yn ei wneud i gefnogi pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor.

Bwriad y cwestiwn isod yw helpu i ysgogi syniadau ynghylch y thema hon:

**Pa mor effeithiol yw'r Taliad Annibyniaeth Personol wrth gyflawni ei rôl a'i ddiben arfaethedig?**

Er eich bod yn rhydd i gyflwyno unrhyw dystiolaeth sy'n ymwneud â rôl a diben y Taliad Annibyniaeth Personol, mae'r Adolygiad yn arbennig o awyddus i gasglu tystiolaeth sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Rôl y Taliad Annibyniaeth Personol wrth alluogi pobl anabl a'r rhai â chyflyrau hirdymor i fyw'n annibynnol a chymryd rhan lawn mewn cymdeithas (o'r Cylch Gorchwyl)
- Pa rôl y gallai ac y dylai'r asesiad ei chwarae wrth ddatgloi cymorth ehangach er mwyn sicrhau'n well safonau byw uwch a mwy o annibyniaeth (o'r Cylch Gorchwyl)
- I ba raddau y mae diben y Taliad Annibyniaeth Personol yn cael ei ddeall
- Yr hyn y mae'n ei olygu i fyw'n annibynnol a beth y mae hyn yn ei olygu i'r Taliad Annibyniaeth Personol
- Rôl y Taliad Annibyniaeth Personol wrth alluogi a chefnogi pobl i wneud gweithgarwch ystyrlon, gan gynnwys cyflogaeth
- Ffactorau sy'n effeithio ar y costau ychwanegol y mae pobl anabl yn eu hwynebu
- Canfyddiadau o'r Taliad Annibyniaeth Personol mewn cymdeithas a sut mae hyn yn effeithio ar y modd y mae pobl yn rhyngweithio â'r Taliad Annibyniaeth Personol
- Y weledigaeth a'r uchelgeisiau ehangach ar gyfer y Taliad Annibyniaeth Personol a phobl anabl

**Thema 2 – Cymhwysedd, tegwch a chyfiawnder wrth ddyfarnu'r Taliad Annibyniaeth Personol**

Bydd yr Adolygiad yn archwilio cymhwysedd, tegwch a chyfiawnder wrth ddyfarnu'r Taliad Annibyniaeth Personol. Drwy’r thema hon bydd yr adolygiad yn ystyried yr hyn y mae pobl yn dymuno i'r Taliad Annibyniaeth Personol ei asesu, y modd y mae

hyn yn cael ei wneud, a’r rhwystrau y gallai pobl eu hwynebu wrth gael mynediad at y Taliad Annibyniaeth Personol.

Bwriad y cwestiwn isod yw helpu i ysgogi syniadau ynghylch y thema hon:

**A yw asesiad y Taliad Annibyniaeth Personol, gan gynnwys y meini prawf asesu, yn adlewyrchu'n effeithiol effaith cyflyrau iechyd hirdymor ac anabledd yn y byd modern, ac yn rhoi mynediad teg at y cymorth cywir ar y lefel gywir ar draws y system fudd-daliadau?**

Er eich bod yn rhydd i gyflwyno unrhyw dystiolaeth sy'n ymwneud â thegwch a chyfiawnder wrth ddyfarnu'r Taliad Annibyniaeth Personol, mae'r Adolygiad yn arbennig o awyddus i gasglu tystiolaeth sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Y meini prawf asesu ar gyfer elfennau Symudedd a Bywyd Beunyddiol y Taliad Annibyniaeth Personol – gan gynnwys gweithgareddau, disgrifyddion a phwyntiau cysylltiedig – ac a yw'r rhain yn adlewyrchu'n effeithiol effaith cyflyrau iechyd hirdymor ac anabledd yn y byd modern (o'r Cylch Gorchwyl)
- A ddylid ystyried unrhyw dystiolaeth arall ochr yn ochr â'r asesiad swyddogaethol er mwyn adlewyrchu'n deg effaith byw â chyflwr iechyd hirdymor neu anabledd (o'r Cylch Gorchwyl)
- Y modd y gallai asesiad y Taliad Annibyniaeth Personol ddarparu mynediad teg i'r cymorth cywir ar y lefel gywir ar draws y system fudd-daliadau (o'r Cylch Gorchwyl)
- Y modd y mae'r Taliad Annibyniaeth Personol yn rhyngweithio â mathau eraill o gymorth, a'r modd y gallai gael ei ddefnyddio i lenwi bylchau mewn cymorth ehangach
- Y defnydd o dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu'r Taliad Annibyniaeth Personol
- Y rhwystrau ychwanegol y gall pobl, megis y rhai â nodweddion gwarchodedig, o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol, neu mewn lleoliadau gwahanol, eu hwynebu
- Darpariaethau ar gyfer pobl sydd â chyfraddau anwadal, cyflyrau amryfal a chyflyrau ysbeidiol
- Y defnydd o dechnoleg yn y broses casglu tystiolaeth.

## Thema 3 – Y profiad o hawlio'r Taliad Annibyniaeth Personol

Bydd yr Adolygiad yn archwilio'r profiad o hawlio'r Taliad Annibyniaeth Personol, o gyflwyno cais hyd at dderbyn/herio penderfyniad, ac adolygiadau dilynol o'r dyfarniad. Drwy’r thema hon bydd yr adolygiad yn ystyried profiad presennol pobl sy’n hawlio'r Taliad Annibyniaeth Personol, a'r modd y gellid gwella hyn.

Bwriad y cwestiwn isod yw helpu i ysgogi syniadau ynghylch y thema hon:

**Beth yw profiad y bobl sy'n hawlio'r Taliad Annibyniaeth Personol ac a yw hyn yn amrywio ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl?**

Er eich bod yn rhydd i gyflwyno unrhyw dystiolaeth sy'n ymwneud â'r profiad o hawlio'r Taliad Annibyniaeth Personol, mae gan yr Adolygiad ddiddordeb arbennig yn y canlynol:

- Ymddiriedaeth cwsmeriaid yn y broses
- Y broses a'r profiad asesu
- Tegwch a chynhwysiant yn y broses
- Canfyddiad aelodau'r cyhoedd a'u hymddiriedaeth yn system y Taliad Annibyniaeth Personol
- Cyfathrebu a hygyrchedd
- Hyfforddiant a sgiliau proffesiynol
- Addasiadau rhesymol drwy'r broses hawlio
- Y defnydd o ddarparwyr asesiadau allanol
- Y broses adolygu dyfarniadau
- Y broses apelio
- Rôl technoleg, gan gynnwys y defnydd posibl o ddeallusrwydd artiffisial, yn y broses.

## Thema 4 – Y cyd-destun newidiol a'r effaith ar y Taliad Annibyniaeth Personol

Bydd yr Adolygiad yn archwilio'r cyd-destun newidiol ers cyflwyno'r Taliad Annibyniaeth Personol, a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar y Taliad Annibyniaeth Personol ac ar gymdeithas ehangach. Drwy'r thema hon, bydd yr adolygiad yn ystyried pa newidiadau sydd wedi cyfrannu at y cynnydd yn nifer y bobl sy'n hawlio'r Taliad Annibyniaeth Personol, a'r modd y bydd y Taliad Annibyniaeth Personol yn addasu ar gyfer y dyfodol a pha newidiadau ehangach sy'n ofynnol i sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol.

Bwriad y cwestiwn isod yw helpu i ysgogi syniadau ynghylch y thema hon:

**Beth sydd wedi newid mewn cymdeithas ehangach ac yn y gweithle ers 2013 (ac y gellid disgwyl iddo newid yn y dyfodol), sut mae hyn wedi effeithio ar y Taliad Annibyniaeth Personol, ac a oes angen iddo newid yn unol â hynny?**

Er eich bod yn rhydd i gyflwyno unrhyw dystiolaeth sy'n ymwneud â'r newid yn y cyd-destun ac addasrwydd y Taliad Annibyniaeth Personol ar gyfer y byd modern, mae'r Adolygiad yn arbennig o awyddus i gasglu tystiolaeth sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Y ffactorau sy'n cyfrannu at y cynnydd mewn lefelau anabledd mewn cymdeithas, gan gynnwys gwahanol gyflyrau, gwahanol grwpiau oedran, gwahanol unigolion, a salwch terfynol

- Effaith newidiadau mewn cymdeithas ehangach ar lefelau anabledd a'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n hawlio'r Taliad Annibyniaeth Personol
- Effaith newidiadau yn y gweithle a'r farchnad lafur
- Hyblygrwydd y Taliad Annibyniaeth Personol i addasu i newidiadau yn y dyfodol mewn anabledd a chymdeithas
- Addasu i'r bwriad i ddiddymu'r Asesiad Gallu i Weithio yn y dyfodol a newidiadau eraill i fudd-daliadau
- Y modd y gall y Taliad Annibyniaeth Personol aros o fewn terfynau ariannol sefydlog.

**Ymateb i'r Cais hwn am Dystiolaeth**

Mae'r Adolygiad yn gwahodd ymatebion i'r Cais hwn am Dystiolaeth erbyn 11.59 pm ar 28 Mai 2026.

Ar-lein

Ymatebwch i'r Cais hwn am Dystiolaeth gan ddefnyddio'r ffurflen ar y ddolen hon Cais am Dystiolaeth Adolygiad Timms – Llenwi’r ffurflen. Gallwch gyflwyno eich ymateb yn ddienw.

Os yw eich ymateb yn cynnwys atodiadau, anfonwch eich ymateb atom drwy e-bost i timmsreview.callforevidence@dwp.gov.uk

Drwy'r post

Os hoffech ymateb drwy’r post, anfonwch eich ymateb i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn y cyfeiriad canlynol:

Adolygiad Timms
Y Gyfarwyddiaeth Strategaeth Anabledd ac Iechyd
Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Llawr 2
Caxton House
Llundain
SW1H 9NA

Drwy e-bost

Gallwch anfon e-bost atom yn timmsreview.callforevidence@dwp.gov.uk i gael gwybod am ffyrdd eraill o gyflwyno ymateb os na allwch ymateb drwy'r post neu gan ddefnyddio'r ffurflen uchod. Gallwch hefyd ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn os bydd eich ymateb yn cynnwys atodiadau.

Gofalwch fod ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth yn cael eu cyflwyno cyn y dyddiad cau, sef 11.59 pm ar 28 Mai 2026.

## Hygyrchedd

Mae'r Cais hwn am Dystiolaeth wedi'i gyhoeddi mewn fersiynau hygyrch gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain, Hawdd ei Ddeall, sain, Braille, print bras a Saesneg. I ofyn am fersiwn Braille neu gopïau caled o fersiynau hygyrch cyhoeddedig eraill o'r Cais hwn am Dystiolaeth, anfonwch neges e-bost atom yn timmsreview.callforevidence@dwp.gov.uk.

## Y camau nesaf

Ar ôl i'r Cais hwn am Dystiolaeth gau ar 28 Mai 2026, bydd yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd yn cael ei darparu i'r grŵp llywio er mwyn cyfrannu at gam nesaf yr Adolygiad. Yn ogystal, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn llunio ymateb cryno i gefnogi'r grŵp llywio wrth gydgrynhoi'r dystiolaeth a gafwyd. Bydd crynodeb o'r ymatebion a gafwyd yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr Adolygiad, fel y penderfynir gan y grŵp llywio.

## Diogelu data a chyfrinachedd

Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dadansoddi ac yn crynhoi'r ymatebion, a gall ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i gynorthwyo gyda phrosesu'r ymatebion - bydd hyn o dan oruchwyliaeth ddynol ac ni fydd yn disodli barn ddynol wrth ystyried y dystiolaeth. Gellir cyhoeddi fersiwn ddienw o'ch ymateb mewn rhestr o ymatebion, mewn crynodeb o'r ymatebion a gafwyd, ac mewn unrhyw adroddiadau dilynol ar yr adolygiad.  Efallai y byddwn hefyd yn rhannu eich data personol lle bo’r gyfraith yn gwneud hynny'n ofynnol, er enghraifft mewn perthynas â chais a wnaed o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Byddwn yn tynnu gwybodaeth a allai ddatgelu pwy ydych chi, megis cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn, o'r ymatebion hyn; ond ar wahân i hynny efallai y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Gallwch hepgor gwybodaeth bersonol o'ch ymateb yn gyfan gwbl os byddai'n well gennych wneud hynny.